

Taflen Ffeithiau

Aflonyddwch

Os ydych yn dioddef aflonyddwch mae'n bwysig ichi weithredu cyn ystyried gadael eich cartref presennol.



Beth yw aflonyddwch?

Unrhyw ymddygiad sy'n ymddangos yn sarhaus neu sydd yn ceisio tarfu arnoch a'ch pryderu'n fwiadol yw aflonyddwch. Mae aflonyddwch gan eich landlord yn cynnwys:

- Peidio rhyddhau allweddi
- Atal gwasanaethau, fel trydan
- Methu gwneud gwaith atgyweirio
- Bygythiadau neu drais corfforol gan y landlord neu rywun yn ymddwyn ar eu rhan
- Ymweliadau heb eu trefnu â'r eiddo
- Gadael eu hunain i mewn i'r eiddo heb ganiatâd
- Gwrthod gadael ichi fyw yn eich cartref mewn llonyddwch
- Gweithredu mewn modd sydd i fod i wneud ichi adael eich cartref
- ceisio eich amddifadu o'ch hawliau cyfreithiol fel tenant
- Agor eich post
- Symud eich eiddo o'r tŷ
- Anfon gweithiwr i'r eiddo heb rybudd neu yn ystod oriau anghymdeithasol (os nad yw'n argyfwng)
- Dadfeddiannu Anghyfreithlon

Beth allaf i ei wneud os wyf yn cael fy aflonyddu?

- Gwnewch yn siŵr eich bod yn gadael i'r Heddlu wybod am unrhyw ddigwyddiadau.
- Gadewch i'ch Landlord wybod am unrhyw ddigwyddiad hefyd.
- Os taw Awdurdod Lleol neu Gymdeithas Dai yw'ch Landlord yna fel arfer mae ganddynt bolisiâu i ddelio gydag Aflonyddwch ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol.
- Cadwch gofnod – gofynnwch i'ch landlord roi popeth yn ysgrifenedig
- Sicrhewch fod yr holl gyfathrebu rydych yn ei wneud gyda'ch Landlord yn ysgrifenedig a chadwch gopi - gall hyn gynnwys dyddiadur, nodiadau ar galendr, lluniau a fideos.
- Sicrhewch waharddeb – byddwch angen cymorth cyfreithiwr neu gynghorydd.

Sut allwch chi helpu?

Gall y Tîm Datrysiadau Tai a'r Negodwr Tai Sector Preifat gynnig cymorth a chyngor i chi.

Mae Deddf Arbed Rhag Troi Allan 1977 yn golygu ei bod yn drosedd:

- Ymyrryd gyda llonyddwch a chysur tenant neu unrhyw un sy'n byw gydag ef neu hi
- Atal yn gyson y gwasanaethau y mae angen rhesymol ar y tenant er mwyn iddynt fyw yn yr eiddo fel cartref
- Gallai unigolyn a ganfyddir yn euog gan ynadon o drosedd o dan y Ddeddf orfod talu cost o £5000 neu gael eu hanfon i garchar am 6 mis, neu'r ddau.



Os gall y Negodwr Tai Sector Preifat ac/neu'r Swyddog Datrysiadau Tai gadarnhau na allwch ddychwelyd i'r cartref, efallai y cewch gynnig llety dros dro, yn ddibynnol ar eich amgylchiadau

Os ydych yn dioddef aflonyddwch gan gyn-gymar, mae'n bwysig gadael i'r Heddlu wybod. (Gweler y daflen am Gam-Drin Domestig am fwy o wybodaeth.)

Os ydych yn dioddef aflonyddu hiliol dylech adael i'r Heddlu wybod am hyn – os gall yr Heddlu gadarnhau nad yw'n ddiogel ichi aros yn eich cartref presennol, efallai y gallwn gynnig llety dros dro i chi.

Os nad oes dyletswydd ar y Tîm Datrysiadau Tai i ddarparu llety ichi fe wnawn ni roi cyngor ichi ar sut i ddarganfod llety fforddiadwy amgen a'ch cyfeirio at unrhyw asiantaethau eraill a all fod o gymorth ichi.

Shelter

Cymru

☎ 01792 469400

💻 www.sheltercymru.org.uk

📍 Uned 5, Adeilad yr Orsaf, Stryd Bodfor, Y Rhyl LL18 1AT



Cyngor ar Bopeth

☎ 0344 477 2020

💻 www.citizensadvice.org.uk

📍 Eryl Wen, Eryl Place, Llandudno, Conwy LL30 2TX

